PWYLLGOR CRAFFU ADOLYGU POLISI A CHRAFFU PERFFORMIAD

DYDD MERCHER, 20 CHWEFROR 2019

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Walker(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Berman, Bowen-Thomson, Boyle, Cunnah, Hudson, Lister a/ac Mackie |

61 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Dim

62 : DATGANIADAU O FUDDIANT

| CYNGHORYDD | EITEM | RHESWM |
|---|---|---|
| Mackie | Cynigion Cyllideb Ddrafft | Personol |

63 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2019 fel cofnod cywir.

64 : CYNLLUN CORFFORAETHOL 2019-22 – DRAFFT TERFYNOL

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Huw Thomas, Arweinydd y Cyngor;
- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad;
- Paul Orders, Prif Weithredwr;
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau;
- Gareth Newell, Rheolwr Polisïau, Partneriaethau a Ffocws Dinasyddion;
- Dylan Owen, Pennaeth Swyddfa'r Cabinet.

Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor eu bod wedi cael cyfle o'r blaen i ystyried drafft cynnar o Gynllun Corfforaethol 2019/20 ym mis Ionawr 2019 a rhoddwyd cyfle hefyd i'r Panel Perfformiad ystyried y targedau a gynigiwyd mewn sesiwn anffurfiol. Yn dilyn y ddau archwiliad, roedd y Pwyllgor wedi anfon llythyrau at yr Aelod Cabinet yn amlinellu'r sylwadau a'r sylwadau a oedd wedi'u hatodi yn y papurau.

Gwahoddodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Huw Thomas wneud datganiad.

Eglurodd y Cynghorydd Thomas, ers yr etholiad yn 2017, bod y Weinyddiaeth wedi nodi ei hagenda bolisi gydag ymrwymiadau tuag at ysgolion, adeiladu tai cyngor newydd ac ehangu'r Rhaglen Prentisiaeth Gorfforaethol. Y Cynllun Corfforaethol oedd y ddogfen hanfodol ar gyfer cyflawni gyda meini prawf ar gyfer llwyddiant. Croesawyd yr ymyrraeth gynnar gan y Pwyllgor Craffu a chefnogwyd ymgysylltu a datblygu. Cydnabuwyd hefyd fod y 12 argymhelliad o'r Panel Perfformiad yn cefnogi newid.

Gwahoddwyd y Swyddog i roi trosolwg o'r newidiadau a wnaed o ganlyniad i ymgysylltu â chraffu.

Derbyniodd y Pwyllgor Nodyn Briffio, a oedd yn amlinellu diwygiadau yn dilyn ymgysylltu â'r Pwyllgor Adolygu Polisi a Pherfformiad a'r Panel Perfformiad.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y newidiadau a awgrymwyd i Reoli Gwastraff a gofynnodd pa wahaniaethau a wnaed.  Mewn ymateb, cyfeiriodd y Swyddogion at y targed DPA a dadansoddiad tuedd.  Yn y Cynllun Corfforaethol cyflwynwyd cam newydd yn y maes hwnnw ond roedd y DPA yn aros yr un fath.

Nododd yr aelodau na ellid ychwanegu rhagor o wybodaeth am Asesiadau Estyn.

Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor fod Tai yn Gyntaf yn wasanaeth newydd ac y byddai'n cael ei adolygu i sicrhau nad oedd targedau'n rhy uchel.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at anghydraddoldebau iechyd. Y mesurau penodol a amlinellwyd yn y Cynllun ac a oedd hyn yn meddwl cynnwys yr holl bartneriaid nid y Cyngor yn unig.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn cymryd rhan fel y Bwrdd trosfwaol ar gyfer gyrwyr iechyd a chydraddoldeb a oedd yn ymwneud â materion economaidd-gymdeithasol, wedi'u cyfeirio at deuluoedd, adnoddau tai a chymunedau cynhwysol.

Cyfeiriwyd y Pwyllgor at dudalen 22 o'r Cynllun Corfforaethol, gan dynnu sylw at yr hyn y byddai Caerdydd yn ei wneud i wneud y ddinas yn lle gwych i heneiddio. Mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol a gwell ansawdd bywyd i bobl hŷn.

Dywedwyd wrth Aelodau'r Pwyllgor fod y parhad yn cael ei gynnwys yn y cynllun. Cynllun sy'n seiliedig ar arweinyddiaeth wleidyddol a rheolaeth broffesiynol i adnewyddu a datblygu’r Uchelgais Prifddinas ymhellach.

Roedd cyflymder y cynnydd yn cael ei wireddu.  Roedd materion sylweddol yn cael sylw mewn rhai cyfarwyddiaethau, gan gynnwys edrych ar Reoli Gwastraff a'r materion Absenoldeb Salwch ehangach a oedd yn wynebu heriau, ond yn gyffredinol roedd y Cyngor yn gwneud cynnydd da.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at faterion iechyd. Mae'r Cyngor yn gweithio ochr yn ochr â chymunedau, yn enwedig ysgolion, i sefydlu a datblygu ffyrdd iach o fyw, a oedd yn cynnwys canolbwyntio ar y Strategaeth Gordewdra Genedlaethol.

Hysbyswyd yr aelodau o'r gwasanaeth a ddarperir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) mewn perthynas â'r Strategaeth Gordewdra Genedlaethol. Datblygwyd strategaethau bwyd iach ar gyfer ysgolion, ynghyd â'r Rhaglen Teithio Llesol a Gemau Caerdydd.  Roedd ysgolion hefyd yn cael eu hannog i ddatblygu rhaglenni chwaraeon.  Fodd bynnag, cydnabuwyd bod meysydd i'w gwella ac roedd hyn yn yrrwr allweddol wrth symud ymlaen.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r fethodoleg y tu ôl i agweddau dylunio o ansawdd da, roedd hyn yn ymwneud â'r broses Gynllunio a'r cam cyn ymgeisio ar ôl ystyried y cais.

Tynnodd aelodau'r Pwyllgor sylw at Oedi wrth Drosglwyddo Gofal a dywedwyd wrthynt fod y Cyngor yn gweithio gyda phartneriaid i reoli'r galw drwy gydgysylltu gofal cymdeithasol, iechyd a thai, gyda'r nod o gadw pobl yn hapus ac yn iach, yn byw yn eu cartrefi a chymunedau lleol cyn hired â phosibl.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 65 : CYNIGION CYLLIDEB DRAFFT 2019-20

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod y Pwyllgor hwn yn unigryw o ran ei rôl ddeublyg wrth graffu ar y cynigion ar gyfer y gyllideb.

Yn gyntaf, mae'r Pwyllgor yn ystyried y cynigion o safbwynt corfforaethol yn nhermau sut maent yn alinio â blaenoriaethau'r Cyngor.
Yn ail, mae'r Pwyllgor yn ystyried cynigion cyllidebol gwasanaethau penodol o fewn ei gylch gorchwyl, sut maent yn alinio â'r Cynllun Corfforaethol a'u heffaith ar ddarparu gwasanaethau.

Byddai'r rhan hon yn cael ei rhannu'n bedair rhan:

- Trosolwg o gynigion cyllidebol 2019/20 gan y Cynghorydd Weaver a Christine Salter;
- Craffu ar y Strategaeth Gyfalaf;
- Craffu'r tair Cyfarwyddiaeth sy'n dod o dan gylch gorchwyl Adolygu Polisi a Pherfformiad, gyda'r Cyfarwyddwyr priodol yn bresennol.
- Y Cyfarwyddiaethau Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Datblygu Economaidd gyda'i gilydd.

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad;
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau;
- Ian Allwood, Pennaeth Cyllid;
- Gareth Newell, Rheolwr Partneriaeth ac Ymgysylltu â'r Gymuned.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cynghorydd Weaver wneud datganiad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Weaver at yr arbedion yr oedd yn rhaid eu bodloni ar draws y Cyngor gan gynnwys cronfa wrth gefn y Gwasanaethau Plant. Gellid gweld gwelliannau ar draws y Cyngor a diolchwyd i'r Swyddogion am eu gwaith caled. Roedd bwlch cyllidebol o £324 miliwn, gydag arbedion o £19.1 miliwn i'w gwneud. Roedd cynnydd o 4.9% yn y Dreth Gyngor yn cael ei gynnig gan godi £6.7 miliwn.

Gwrandawodd y Pwyllgor ar gyflwyniad a oedd yn nodi'r prif bwyntiau canlynol:

- Trosolwg o'r Setliad Terfynol, Cyllid Allanol Cyfun
- Setliad Terfynol - Grantiau Penodol
- Ymgynghoriad
- Trosolwg o'r Gyllideb Refeniw

- Cyllideb Refeniw 2019/20
- Asesiad Risg o Gynigion Arbedion - £19.157 miliwn
- Goblygiadau Gweithwyr Cyllideb Refeniw 2019/20
- Ysgolion Dirprwyedig
- Defnyddio Mecanwaith Gwydnwch Ariannol yn 2019/20
- Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau
- Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2020/21 – 2023/24
- Rhaglenni Datblygu Cyfalaf 2019/20 - 2023/24
- Setliad Llywodraeth Cymru - Cyfalaf 2019/20
- Rhaglen Gyfalaf 2019/20 - 23/24 Fforddiadwyedd Benthyca i Ariannu Cyfalaf 1.
- Rhaglen Gyfalaf 2019/20 - 23/24 Fforddiadwyedd Benthyca i Ariannu Cyfalaf 2.
- Rhaglen Gyfalaf y Gronfa Gyffredinol - Crynodeb
- Rhaglen Gyfalaf Tai Cyhoeddus (Cyfrif Refeniw Tai) - Crynodeb
- Rhaglen Gyfalaf Gwariant 5 mlynedd = £843.2 miliwn

Diolchodd y Cadeirydd i Christine Salter am y cyflwyniad gan wahodd cwestiynau gan y Pwyllgor.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y Cynllun Ariannol Tymor Canolig, sef cyfanswm o £104 miliwn dros y 4 blynedd nesaf a gofynnodd a oedd hynny'n uwch nag yn y blynyddoedd blaenorol.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig o gwmpas y lefel honno a bod y blynyddoedd unigol yn amrywio. Y bwlch eleni oedd 32 ac roedd bylchau blynyddol yn debyg i'r bylchau blaenorol.

Cyfeiriodd aelodau'r Pwyllgor at oblygiadau swyddi a gollwyd ac a grëwyd gan weithwyr a beth oedd y ganran bresennol o drosiant staff.

Hysbyswyd yr Aelodau y byddai'r Cyfarwyddwyr yn penderfynu a ddylid disodli gweithiwr neu ddileu'r swydd honno. Chwaraeodd Cynllunio Gweithlu rôl bwysig wrth gefnogi cyflogeion yn y dyfodol a sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am bwysau Ysgolion a dywedwyd wrthynt fod cyfanswm o £12.5 miliwn o bwysau ar ysgolion. Roedd hyn yn cynnwys y Dyfarniad Cyflog Athrawon o £2.4 miliwn, Cymorth i Ddisgyblion ar gyfer Anghenion Disgyblion Cysylltiedig a oedd yn £2.4 miliwn a £4.3 miliwn ar gyfer Pensiynau Athrawon. Gwelwyd hyn ledled Cymru ac nid oedd gan yr awdurdodau lleol yr arian, a oedd ar gael yn Lloegr. Cost oedd hon i ysgolion.

Rhoddwyd gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor am effaith gwaith asiantaeth yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, sut yr oedd hyn yn cael sylw.
Adeiladwyd y gyllideb o ofynion y flwyddyn gyfredol ar gyfer costau gweithwyr asiantaeth a chydnabuwyd bod y gwariant hwn yn rhy uchel. Roedd y gyfarwyddiaeth yn awyddus i ddatblygu eu Gweithwyr Cymdeithasol mewnol eu hunain ac roedd projectau'n parhau gyda Phrifysgolion i greu hyn. Unwaith y gallai'r Cyngor ddatblygu a chynyddu ei Weithwyr Cymdeithasol mewnol ei hun, byddai cost staff asiantaeth yn lleihau.

Hysbyswyd y Pwyllgor o'r mecanweithiau cydnerthedd ariannol sydd ar waith i ddelio â'r cymhorthdal bws. Amlinellwyd y wybodaeth yn Atodiad 12, Mentrau Cludiant, Creu cronfa i gefnogi dull y Cyngor o ddarparu cymhorthdal cymdeithasol i lwybrau bysiau lle tybir bod hynny'n angenrheidiol. Yr adnodd i'w ddefnyddio dros gyfnod o ddwy flynedd yn dilyn asesiad o flaenoriaethau'r llwybr.

Hysbyswyd y Pwyllgor am oblygiadau'r gweithwyr ar swyddi gyda'r posibilrwydd o newid swyddogaethau a swyddi yn cael eu dileu. Cydnabuwyd bod y Gyfarwyddiaeth Adnoddau â llawer o gyflogeion, wrth ystyried arbedion o 17% ac roedd hwn yn gyfle i fanteisio ar swyddi gwag ac ail-alinio dyletswyddau.

Hysbyswyd yr Aelodau mai'r Refeniw presennol oedd £35 miliwn, ar gyfer Ariannu Cyfalaf. Mae benthyca allanol, ad-dalu, a elwir yn Isafswm Darpariaeth Refeniw i alinio â bywyd defnyddiol ased a fenthycwyd mewn perthynas â benthyciad 45-50 mlynedd.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am yr Amlen Fforddiadwyedd i'r Cyngor ei hystyried mewn perthynas â'r buddsoddiad posibl mewn perthynas ag arena dan do. Ar hyn o bryd roedd y Cabinet yn archwilio dichonoldeb yr Arena Dan Do, nid oedd y Cabinet eto mewn sefyllfa i fwrw ymlaen ag achos busnes wedi'i ffurfio yn llawn. Nid oedd y cynnig hwn yn y Rhaglen Gyfalaf yn ystod 2019/20.

Tynnodd aelodau'r Pwyllgor sylw at yr arbedion cadarn sy'n cael eu cynnig yn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Rheoli Gwastraff, nad oes modd eu cyflawni o bosibl.

Hysbyswyd y Pwyllgor y gwnaed arbedion, ond gwireddwyd costau uwch drwy'r cynnydd yn y galw. Roedd yr holl arbedion yn gyflawnadwy ac roedd gan y cyfarwyddiaethau gynlluniau manwl i'w cyflawni.

Tynnodd y Pwyllgor sylw at y gwahaniaeth rhwng yr arbedion sydd eu hangen mewn Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ailgylchu a Chasglu Gwastraff, a oedd yn gyfarwyddiaeth â nifer uwch o weithwyr.

Hysbyswyd y Pwyllgor ei bod yn ofynnol i bob cyfarwyddiaeth ddod o hyd i arbedion o 17% ar wahân i'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Dyma'r broses sy'n cael ei dilyn, gyda'r cynigion wedyn yn cael eu rhoi gerbron y Cabinet i'w hadolygu a'u mireinio, yn dilyn yr ymarfer hwn byddai rhai cyfarwyddiaethau yn arbed llai.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor y byddai swydd wag y Pennaeth Perfformiad a Phartneriaethau yn cael ei disodli. Roedd hyn yn rhan o ailstrwythuro, na phenderfynwyd arno eto.

Strategaeth Cyfalaf 2019/20

Croesawodd y Cadeirydd:

- Y Cynghorydd Chris Weaver, yr Aelod Cabinet dros Gyllid, Moderneiddio a Pherfformiad;
- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau;
- Ian Allwood, Pennaeth Cyllid
- Anil Hirani, Rheolwr Gweithredol Cyfalaf, Corfforaethol a’r Trysorlys

Cafodd y Pwyllgor gyflwyniad gan Ian Allwood, a oedd yn amlinellu'r canlynol:

- Y cefndir ac adnewyddu gofynion
- Pam mae codau statudol wedi newid
- Cymeradwyo a llywodraethu
- Nodau allweddol y Strategaeth Gyfalaf
- Ystyriaeth yn y strategaeth gyfalaf
- Datblygu strategaeth blynyddoedd i ddod

Gofynnodd yr Aelodau am yr adolygiad strategol, gwaredu asedau a meini prawf, caffael asedau gan nad oedd dim hyd yn hyn wedi dod i'r amlwg.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod adolygiadau adeiladu wedi gwella dros y 2-3 blynedd diwethaf ac wedi datblygu dealltwriaeth glir o'r asedau. Roedd gan Gynllunio a Thrafnidiaeth gynllun a dealltwriaeth o'u hasedau, a gyfrannodd at y rhaglen. Ar hyn o bryd roedd yr asedau mewn cyflwr derbyniol, gyda'r tir mwyaf yn ased, gyda'r potensial i wneud y gorau o warediadau ac ariannu adeiladau newydd.

Hysbyswyd yr Aelodau bod gan Eiddo gynlluniau clir ar waith heb unrhyw adolygiadau ffurfiol a bod gwaith yn parhau i edrych ar y cynlluniau strategol tymor hwy.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu bod y ffigur benthyca yn £112 miliwn yn 2017, a'i fod bellach yn £255 miliwn gyda thalu'n ôl yn ddibynnol ar Dderbyniadau Cyfalaf. Nid oedd yr amrywiad yn glir ac felly sut mae'r Cyngor yn asesu cadernid ariannol Adnoddau Cyfalaf.

Cyfeiriwyd at y Cyfrif Refeniw Tai fel enghraifft, ac o'r blaen cyfyngwyd ar y cyfle i adeiladu tai o ganlyniad i'r cap. Ers dileu'r cap, gallai'r Cyngor ddatblygu ei strategaeth dai ymhellach. Roedd Band B yr un fath â'r effaith ar lefel y benthyca.

Hysbyswyd yr aelodau o gyfraniad amcangyfrifedig, cynllun 5 mlynedd gyda disgwyliad 5 mlynedd gan na allai'r Cyngor ddechrau project heb gyllideb yn ei le.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu nad oedd sicrwydd y byddai'r Cyngor yn derbyn Derbyniadau Cyfalaf ar gyfer gwaredu tir a gofynnodd pa fesurau diogelu oedd ar waith ac a oedd hyn yn risg i'r Rhaglen Gyfalaf.

Sicrhawyd yr aelodau bod y rhagolwg economaidd wedi'i ystyried. Cafodd y cynlluniau eu gosod a'u cyflawni gyda tharged derbyniol ond nid oedd ailymweliad â chynlluniau pe bai angen yn cael ei ddiystyru.

**Cynigion cyllidebol y Gyfarwyddiaeth Adnoddau**

Croesawodd y Cadeirydd:

- Christine Salter, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Adnoddau
- Ian Allwood, Pennaeth Cyllid
- Philip Lenz, Prif Reolwr Adnoddau Dynol

Amlinellodd Christine Salter y canlynol:

Mae'r Gwasanaethau Cymorth bellach yn cynnwys Gwasanaethau Cwsmeriaid a chanolfan gyswllt a oedd yn rhan o'r Agenda Digidol yn y dyfodol. Bu'n rhaid gwneud arbedion o £2.9 miliwn ynghyd ag £16.4 miliwn o Refeniw Net y flwyddyn nesaf. Cyfanswm yr arbedion oedd 18% o'r gyllideb y gellir ei rheoli.

Roedd y ffrydiau incwm yn cynnwys hyfforddiant Iechyd a Diogelwch ar gyfer asbestos, cymorth Llywodraethu Gwybodaeth i ysgolion, incwm Caerdydd Ddwyieithog ac incwm gan y Cwmni Masnachu Caffael.

Cynigiwyd gostyngiad o 57.7 cyfwerth ag amser llawn mewn cyflogeion, gydag ailstrwythuro ac adlinio ar waith i gefnogi gwasanaethau yn y dyfodol. Roedd goblygiadau sylweddol i Gyfrifeg, Treth y Cyngor a Refeniw a Thîm yr Uchelgais Prifddinas. Cafwyd gostyngiad hefyd yng nghyfanswm y pen mewn Gwasanaethau Digidol gan fod sifftiau sianel yn cael eu cyflwyno.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod hyfforddiant yn cynnwys Cleientiaid Bwrdd y Sector Cyhoeddus. Er enghraifft, roedd Pryd ar Glud yn rhan o'r gyfarwyddiaeth ac roedd cyflwyno'r gwasanaeth i drigolion sy'n byw ym Mro Morgannwg yn cael ei archwilio ynghyd ag awdurdodau cyfagos.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn pryderu am y gostyngiad yn nifer y staff Gwasanaethau Cwsmeriaid a sut y byddai newid y sianel ddigidol yn lleihau'r galw. A hefyd, y risg o ganlyniad i'r swydd wag ym maes Pensaernïaeth Menter ac a oedd y gwasanaeth hwn yn brin o adnoddau.

Hysbyswyd y Pwyllgor fod rhyngweithio gwasanaethau cwsmeriaid yn cael ei olrhain, gan ddadansoddi faint o gwsmeriaid oedd yn defnyddio'r gwasanaeth ac ym mha fodd. Roedd rhwydweithiau'r Hybiau wedi'u lleoli ar draws y ddinas ac yn rhoi cyngor ar wasanaethau cwsmeriaid a chymorth App Cyngor Caerdydd. Crëwyd swydd y Prif Swyddog Digidol ynghyd â'r Tîm Cyflawni Digidol a byddai'r gwasanaeth hwn yn cwmpasu'r gefnogaeth i Bensaer Menter.

Hysbyswyd yr Aelodau am gyflwyno Cynorthwy-ydd Rhithwir i gefnogi'r newid sianel ddigidol a sut yr oedd gwaith yn parhau gyda Microsoft i leddfu unrhyw bryderon.

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod angen ymgynghorwyr am gyngor ar draws y Cyngor yn ôl yr angen.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am ailstrwythuro Gwaith Caerdydd a'r Academi a'r ddarpariaeth hyfforddiant gyfredol a ddarperir gan Academi Caerdydd.

**Cynigion Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol a Datblygu Economaidd.**

Croesawodd y Cadeirydd:

- Neil Hanratty, Cyfarwyddwr Datblygu Economaidd
- Helen Thomas
- David Lowe
- Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau fod cylch gwaith y Pwyllgor hwn dim ond yn cynnwys Materion Eiddo a Rheoli Cyfleusterau o fewn y Gyfarwyddiaeth Datblygu Economaidd.

Rhoddodd Helen Thomas wybod i'r Pwyllgor am Strategaeth Eiddo 2020 a lleihau maint yr ôl-groniad Ystâd a Chynnal.

Cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa bresennol gyda Staff Glanhau mewn ysgolion. Roedd ysgolion bellach mewn sefyllfa i gaffael eu ffynonellau glanhau priodol eu hunain a pheidio â dibynnu ar ddarpariaeth fewnol y Cyngor.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r aelodau am y gostyngiad yn y gwasanaethau diogelwch yn Brindley Road, gyda chyflwyno technoleg newydd.

Croesawodd y Pwyllgor Davina Fiore, Cyfarwyddwr Llywodraethu a Gwasanaethau Cyfreithiol

Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y cynigion arbedion ar gyfer Gwasanaethau Democrataidd yn cael eu hystyried yn annerbyniol ac felly awgrymwyd cynigion llai gyda lleihad mewn cronfeydd wrth gefn etholiad, lleihad yn y gyllideb hyfforddi i Aelodau ac i roi'r gorau i agendâu argraffu ac adroddiadau i aelodau, oni bai bod angen Deddf Cydraddoldeb. Roedd £42 mil o arbedion yn cael eu cyflwyno i gynnal y Gwasanaeth Cefnogi Craffu presennol a'r Tîm Gwasanaethau Aelodau a fyddai'n dal i fodoli.

Rhoddwyd diweddariad i'r Pwyllgor ar y sefyllfa bresennol yn y Gwasanaethau Cyfreithiol. Roedd cynhyrchu incwm yn allweddol gan gynnwys cleientiaid allanol a chymryd rhan yn y Fargen Ddinesig. Roedd y gwasanaeth yn recriwtio yn weithredol a hefyd roedd pobl yn gadael yn gyflym iawn. Roedd cais am dwf wedi'i gyflwyno gan Ddiogelu Plant a chafwyd ailstrwythuro hefyd o ganlyniad i golli swyddi.

Hysbyswyd Aelodau'r Pwyllgor fod y Gwasanaethau Cyfreithiol yn ei chael hi'n anodd recriwtio staff asiantaeth. Roedd recriwtio yn broblem gan fod cyfnod rhybudd y Cyngor un mis yn ôl y disgwyl i dri mis yn y sector preifat.

Roedd y Pwyllgor yn pryderu y byddai dileu'r gweddarllediad o Neuadd y Sir yn arwain at fethu cynnal cyfarfod o'r Cyngor o ganlyniad i archebu Siambr y Cyngor yn Neuadd y Ddinas. Yn ogystal, byddai rhoi'r gorau i bob Aelod rhag derbyn copïau caled o agendâu ac adroddiadau yn cyfyngu ar eu gallu i graffu ar faterion cymhleth.

Hysbyswyd yr Aelodau am y gofynion arbed yn y gyfarwyddiaeth a sut y bu'n rhaid dod o hyd i £13 mil. Roedd yr aelodau wedi gwneud penderfyniadau blaenorol am beidio â lleihau Grwpiau Craffu neu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ac felly byddai'n rhaid i'r arbediad ddod o ffynhonnell arall.

Tynnodd Aelodau'r Pwyllgor sylw at y penderfyniadau a wnaed tuag at leihau copïau caled o agenda ac adroddiadau. Dylid sicrhau bod copïau caled ar gael i gydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb a phan fydd eitemau cymhleth yn cael eu hystyried.

Rhoddwyd gwybodaeth i'r Pwyllgor am yr ailstrwythuro yn y Gwasanaethau Cyfreithiol.  Roedd y swyddi a oedd yn cael eu dileu yn swyddi staff â chyflog uwch, ac roedd recriwtio i swyddi gwahanol yn y sefydliad.

PENDERFYNWYD: CYTUNODD y Pwyllgor y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu ar ran y Pwyllgor at yr Aelod Cabinet er mwyn cyfleu eu sylwadau a'u harsylwadau.

## 66 : EITEMAU BRYS

Dim

## 67 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

13 Mawrth 2019 am 4:30pm

Daeth y cyfarfod i ben am Time Not Specified